Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bryn Deva
# Linden Avenue
# Cei Connah
# Glannau Dyfrdwy
# Sir y Fflint
# CH5 4SN

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/05/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bryn Deva yn gwasanaethu dwy ward ganolog Cei Connah yn Sir y Fflint.  Ystyrir bod dalgylch yr ysgol yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac yn economaidd.  Mae’r derbyniad blynyddol yn ymestyn ar draws yr ystod gallu cyfan.

Yn ystod yr arolygiad, roedd 293 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr.  Daw bron pob un o’r disgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith.  Ychydig iawn o ddisgyblion a ddaw o gartrefi lle mae’r Gymraeg yn iaith gyntaf.  Ar hyn o bryd, mae gan 29% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn uwch o lawer na chyfartaledd yr awdurdod lleol a’r cyfartaledd cenedlaethol.  Mae’r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan 32% o’r disgyblion, sydd uwchlaw’r cyfartaledd i Gymru.  Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2011.  Yn ogystal â’r pennaeth, mae deg athro amser llawn a thri athro rhan-amser.  Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mai 2007.

Y gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Bryn Deva yn 2012-2013 yw £2,840 y disgybl.  Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Sir y Fflint yw £13,748 a’r lleiafswm yw £2,758.  Mae Ysgol Gynradd Bryn Deva yn safle 66 o’r 73 ysgol gynradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- dros y pedair blynedd diwethaf, bu tuedd at i fyny yn neilliannau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2;
- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- mae safonau ymddygiad a phresenoldeb yn uchel;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar ac yn gwrtais ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu;
- mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn sicrhau bod disgyblion wedi'u symbylu ac yn dangos diddordeb ac mae staff cymorth o ansawdd da yn cefnogi dysgu'n effeithiol; ac
- mae darpariaeth effeithiol ar gyfer hybu lles ac mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd dysgu gofalgar a chefnogol.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n glir ar les disgyblion a gwella safonau;
- mae'r holl aelodau staff yn deall eu rolau'n glir, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol;
- mae'r holl athrawon yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn gweithgareddau gwella'r ysgol sy'n gwella deilliannau disgyblion; ac
- mae ystod dda o bartneriaethau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at les a datblygiad medrau disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod yr holl ddisgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd priodol

A2 Gwella ymhellach ddatblygiad iaith Gymraeg disgyblion

A3 Ymestyn y ddarpariaeth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen

A4 Gwella lefel yr her a ddarperir gan y corff llywodraethol mewn perthynas â pherfformiad yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae mwyafrif y disgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau sy'n is na'r hyn a ddisgwylir fel arfer ar gyfer disgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion ychwanegol, yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni cystal ag y gallant.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn dda a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn hyderus â staff, gwirfoddolwyr a, gyda'i gilydd, mewn amrywiaeth eang o sefyllfaoedd. Maent yn gwrando'n dda ac yn parchu safbwyntiau pobl eraill. Maent yn gallu parhau i ganolbwyntio am gyfnodau priodol mewn gwersi.

Mae safonau darllen yn dda. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen wybodaeth dda am seiniau llythrennau. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn dda. Dangosant ddiddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen ac mae llawer ohonynt yn darllen gyda rhuglder, cywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Mae'r mwy abl yn ymwybodol o wahanol fathau o lyfrau, gan gynnwys deunydd ffuglen a ffeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae llawer ohonynt yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl, yn gywir a gyda mynegiant da. Maent yn barod iawn i siarad am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi neu eu casáu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gymeriadau a phlotiau mewn stori. Gall llawer ohonynt sgimio darn yn gynyddol i ddeall ei ystyr a chasglu gwybodaeth. Maent yn cymhwyso'u medrau darllen yn dda mewn gwahanol bynciau a gallant ddod o hyd i lyfrau cyfeirio a'u defnyddio'n effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus at sawl diben, gyda brawddegau llawn ac atalnodi priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau a geirfa ddiddorol. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffyrdd ac, yn aml, mae eu hysgrifennu yn feddylgar ac yn ddychmygus. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn atgyfnerthu ac yn ymestyn eu medrau ysgrifennu'n dda i gynhyrchu darnau o ysgrifennu estynedig o ansawdd da ar draws y cwricwlwm.

Yn aml, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu. Mae ystod eang o raglenni cymorth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn codi'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion targedig yn effeithiol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ennill medrau Cymraeg. Maent yn cyflawni'n dda yn eu gwersi strwythuredig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i gyfarchion a chyfarwyddiadau cyffredinol mewn gwersi eraill. Mae eu gallu i ddarllen llyfrau Cymraeg syml, fodd bynnag, yn gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu darnau byr yn dda gan ddefnyddio geirfa a phatrymau brawddegau cyfarwydd. Ychydig ddisgyblion sy'n defnyddio Cymraeg yn annibynnol y tu allan i'r gwersi hyn.

Yn 2012, roedd canran disgyblion y Cyfnod Sylfaen a wnaeth gyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a chanran y disgyblion mwy abl a wnaeth gyflawni'r deilliant uwch (deilliant 6) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol.

O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn ôl y deilliant disgwyliedig yn ei gosod yn yr 50% uchaf. Roedd perfformiad yr ysgol yn ôl y deilliant uwch yn ei gosod yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 2, dros y pedair blynedd diwethaf, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r tri phwnc yn dangos tuedd o welliant. Yn 2012, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ond islaw cyfartaleddau Cymru. Mae perfformiad yr ysgol wedi'i gosod yn 50% uchaf y lefelau perfformiad ar gyfer ysgolion tebyg yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion mwy abl sy'n cyflawni'r lefel uwch (lefel 5), ym mhob un o'r tri phwnc craidd hefyd yn dangos tuedd o welliant ond mae'n parhau islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel hon mewn mathemateg yn 2012, yn ei gosod yn 50% uchaf yr ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mewn Saesneg a gwyddoniaeth, roedd perfformiad yn parhau yn yr 50% isaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniadau bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol wedi lleihau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 2 yn llwyddiannus. Yn 2012, perfformiodd disgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim cystal â disgyblion nad oes hawl ganddynt gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn hapus ac maent yn cael gofal a chymorth da. Maent yn hyderus y bydd staff yn trin unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn deg. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at fyw'n iach, bwyta deiet iach ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd weithgar o fyw.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion. Mae cymryd mwy o ran mewn asesu, cytuno ar feini prawf llwyddiant a gosod targedau personol yn helpu disgyblion i ennill dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyd-dynnu’’n dda â’i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oedran yn chwarae’n hapus gyda’i gilydd amser egwyl ac yn ystod amser cinio. Maent yn foesgar a chwrtais i ymwelwyr.

Mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn dangos tuedd at i fyny. Mae ffigurau ar gyfer y ddwy flynedd diwethaf yn uwch na ffigurau ysgolion tebyg. Mae bron pob un o’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon er bod ychydig iawn yn hwyr yn gyson.

Mae cyngor yr ysgol wedi’i hen sefydlu ac mae’n glir iawn ynghylch ei rôl. Mae’n gwneud cyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol. Mae aelodau’n cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn gofyn am farn eu cyfoedion ac yn adrodd yn ôl i weddill yr ysgol yn ddiwyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn cwmpasu holl ofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o glybiau allgyrsiol sy’n cyfoethogi ac yn ymestyn eu dysgu. Mae’r cynllunio gan athrawon yn fanwl a thrylwyr ac yn darparu’n gyffredinol ar gyfer yr ystod gallu mewn dosbarthiadau. Mae’r cwricwlwm yn ateb gofynion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn llawn, ond nid yw bob amser yn herio’r mwy abl yn effeithiol. Mae profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y dysgwyr yn ymhél ag ystod dda o weithgareddau diddorol yn y rhan fwyaf o feysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth awyr agored ar gyfer y disgyblion hyn yn llwyr effeithiol.

Mae cyflwyno cwricwlwm medrau integredig yn ddiweddar yn llwyddo i hybu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion. Mae hyn hefyd yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau ymchwil a’u medrau ymarferol yn dda ac mae’n ymestyn eu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig, i hybu dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru, yn dda. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad y Gymraeg yn briodol. Mae athrawon yn darparu modelau da o ymddygiad wrth ddysgu’r iaith. Fodd bynnag nid yw’r ddarpariaeth yn hybu defnydd annibynnol disgyblion o’r iaith yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth. Hefyd, mae athrawon yn cynnig profiadau dysgu o ansawdd da sy’n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill. Enghraifft dda o hyn yw astudiaeth ddiweddar Blwyddyn 6 o effaith argyfyngau naturiol mewn gwahanol rannau o’r byd.

**Addysgu: Da**

Ym mhob dosbarth, mae athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio da iawn gyda disgyblion ac yn trefnu arferion ystafell dosbarth sy’n annog dysgu effeithiol yn dda. Mae cynorthwywyr addysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddysgu a lles yr unigolion a’r grwpiau o ddisgyblion sy’n cael cefnogaeth ganddynt. Mae’r athrawon

a'r staff cymorth yn rheoli ymddygiad disgyblion yn fedrus. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi gweithgareddau'n dda i ateb anghenion disgyblion o bob gallu. Maent yn adeiladu'n bwrpasol ar wersi blaenorol ac yn rhannu amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr ychydig iawn o wersi rhagorol, mae'r cyflymder a'r her yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cymryd rhan weithgar yn eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da iawn. Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r tasgau dysgu yn herio disgyblion mwy abl yn ddigonol.

Mae ansawdd adborth athrawon i ddisgyblion yn ystod gwersi yn dda. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn drylwyr. Gwnânt sylwadau clir ynghylch yr hyn y mae disgyblion yn ei wneud yn dda, ac yn yr arfer orau, rhoddant arweiniad effeithiol ynghylch sut gall disgyblion wella agweddau penodol ar eu gwaith. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn ôl meini prawf llwyddiant sydd wedi cael eu rhannu gyda disgyblion. Mae'r broses hon wedi'i sefydlu'n dda yn rhan uchaf cyfnod allweddol 2 ac mae'n helpu disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain. Mae athrawon yn defnyddio rhaglen electronig yn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i dargedu cymorth ychwanegol. Mae gan athrawon ddealltwriaeth glir o berfformiad disgyblion ac, yn gyffredinol, defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol i gynllunio gwersi a gosod targedau perthnasol ar gyfer gwella. Mae adroddiadau diwedd blwyddyn yn rhoi gwybod yn glir i rieni am gynnydd a chyflawniad eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefel uchel y gofal a'r perthnasoedd da rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les disgyblion. Mae systemau clir ar waith i sicrhau bod medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn datblygu'n dda. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer hybu ymddygiad a phresenoldeb da. Mae'r ddarpariaeth yng ngrŵp anogaeth y Cyfnod Sylfaen a sefydlwyd yn ddiweddar yn arbennig o effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion targedig yn ymroi i'w dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau arbenigol yn dda ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu cael at gymorth proffesiynol pan fo'i angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gweithdrefnau da i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon a staff cymorth yn darparu rhaglenni o ansawdd da i gefnogi'r disgyblion hyn. Mae athrawon yn asesu cynnydd disgyblion yn rheolaidd yn ôl targedau sydd wedi'u diffinio'n glir a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gynllunio darpariaeth bellach a chymorth priodol. Mae staff cymorth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at ddysgu'r disgyblion hyn. Maent yn cyflwyno rhaglenni llythrennedd a rhifedd ac yn cefnogi disgyblion yn y dosbarth yn arbennig o effeithiol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymunol ofalgar a chefnogol sy'n gwerthfawrogi pob disgybl ac yn cydnabod eu cyflawniadau. Mae polisïau, gweithdrefnau a chynlluniau priodol ar waith i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae perthnasoedd da iawn yn bodoli rhwng staff a disgyblion ac mae'r rhain yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos cadarnhaol.

Mae adeilad a safle'r ysgol yn lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ystafelloedd dosbarth yn cynnig amgylchedd golau, symbylol i ddysgwyr. Mae digon o le ar dir yr ysgol ac mae'n ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r amgylchedd dysgu awyr agored ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r ardal leol yn dda i gefnogi ei chwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliad diweddar gan ddisgyblion Blwyddyn 6 i astudio aber Afon Dyfrdwy.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth ac athrawon uwch weledigaeth sy'n canolbwyntio'n glir ar les disgyblion a gwella safonau. Darparant gyfeiriad pwrpasol ac maent yn hybu disgwyliadau uchel o'r holl staff. Mae gan yr holl arweinwyr gyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir. Maent yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol. Mae pob aelod o staff yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm. Mae cyfarfodydd tîm rheoli a chyfarfodydd staff rheolaidd, ynghyd â system drylwyr o reoli perfformiad, wedi cyfrannu'n dda at welliannau mewn addysgu a dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol. Mae'r pennaeth yn rhoi ystod gynhwysfawr o wybodaeth iddynt, sy'n eu galluogi i gael dealltwriaeth dda o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn helpu i gynnig cyfeiriad strategol ac mae'n goruchwylio penderfyniadau ynghylch gwariant yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rôl y llywodraethwyr yn dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau a'r ansawdd a gyflawnir ganddi yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r mentrau a roddwyd ar waith i wella llythrennedd a mynd i'r afael â difreintedd yn codi safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu dull trylwyr o hunanarfarnu wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth uniongyrchol. Mae wedi goruchwylio datblygiad diwylliant o adolygu cadarn a didwyll y mae'r holl aelodau staff yn cyfrannu ato. Mae arweinwyr yn craffu ar ansawdd y gwaith mewn llyfrau disgyblion yn ofalus. Mae hyn, ynghyd ag arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth, yn rhoi dealltwriaeth dda iddynt o ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol. Defnyddiant ddata perfformiad yn effeithiol i fonitro a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Er bod yr ysgol yn gofyn am farn rhieni a disgyblion yn rheolaidd, nid yw rôl llywodraethwyr mewn hunanarfarnu wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae deilliannau hunanarfarnu yn rhoi asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i bennu blaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella'r ysgol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn gryno ac yn glir, gyda nifer hwylus o flaenoriaethau gwella. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n glir ar godi safonau a gwella ansawdd, yn enwedig mewn

llythrennedd. Mae'r targedau'n nodi amserlenni priodol, cyfrifoldebau a chostau ac yn dangos sut i fesur cynnydd. Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r targedau hyn.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithgar mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol sy'n ategu datblygiad proffesiynol staff yn dda. Enghraifft dda o hyn yw rhannu arfer dda mewn llythrennedd gydag athrawon o ysgolion lleol eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ystod eang o bartneriaid i gynllunio a rheoli'r ddarpariaeth. Mae staff yn gweithio'n agos gyda rhieni yn anffurfiol ac mewn gweithdai ar y cwricwlwm i ategu dysgu disgyblion. Mae cysylltiadau cadarn ac amrywiol gyda'r gymuned ac mae disgyblion yn elwa ar amrywiaeth o ymweliadau ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd â staff mewn ysgolion lleol eraill i drafod blaenoriaethau rheoli ac i sicrhau safon uchel wrth gymedroli gwaith disgyblion.

Mae cyfathrebu da rhwng y cylch chwarae cyn-ysgol, sy'n cwrdd ar dir yr ysgol, a staff yr ysgol. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym yn nosbarth meithrin y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau pontio buddiol gyda'r ysgol uwchradd, gan gynnwys diwrnodau celfyddydau creadigol, yn hybu hyder disgyblion i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn bwrpasol. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithredu agos wrth ddatblygu cwricwlwm medrau integredig, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda busnesau lleol, sefydliadau hyfforddi athrawon a choleg addysg bellach i wella profiadau dysgu disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae arweinwyr ysgol yn rheoli ac yn defnyddio staff ac adnoddau ariannol yn effeithiol i ategu dysgu. Mae digon o athrawon a staff cymorth cymwys, sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Caiff yr holl staff eu defnyddio'n dda mewn timau i wneud y defnydd gorau o arbenigedd. Mae trefniadau da i ddatblygu staff ac i ddarparu amser paratoi, cynllunio ac asesu i athrawon. Mae adnoddau digonol sydd mewn cyflwr da ac maent yn bodloni anghenion disgyblion yn dda.

Mae trefniadau rheoli perfformiad effeithiol yn sicrhau bod yr holl staff yn cymryd rhan yn y broses. Mae'r system yn nodi ac yn mynd i'r afael â'u hanghenion datblygu yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau, yn enwedig mewn llythrennedd a TGCh.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllid yn dda a chaiff adnoddau priodol eu darparu i ateb yr anghenion a'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol. Fel arfer, mae'r ysgol yn cadw'i chronfa wrth gefn o fewn y terfynau argymelledig, er bod rhagamcaniadau yn awgrymu gwarged sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Mae gan yr ysgol gynlluniau cytunedig clir i ddefnyddio'r gronfa wrth gefn i dalu am gynlluniau gwella hirdymor.

Mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Bryn Deva yw ysgol sydd â’r mwyaf o heriau yn ei theulu o ysgolion.

Mae’r asesiad gwaelodlin o ddisgyblion yn y dosbarth derbyn yn dangos bod mwyafrif y disgyblion yn dechrau’r ysgol gyda medrau sydd islaw’r hyn a ddisgwylir fel arfer gan ddisgyblion o oedran tebyg.

Yn 2012, roedd canran y disgyblion Cyfnod Sylfaen a wnaeth gyflawni’r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol islaw cyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd yn uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y deilliant disgwyliedig (deilliant 5), yn yr 50% uchaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Roedd yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Roedd cyfran y disgyblion mwy abl a gyflawnodd ddeilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru mewn datblygiad mathemategol. Roedd islaw cyfartaleddau’r teulu a Chymru mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a medrau personol a chymdeithasol. O gymharu â pherfformiad ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i brydau ysgol am ddim, roedd perfformiad yr ysgol yn y deilliant uwch (deilliant 6), yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol ond yn yr 50% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniadau bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen heblaw yn eu datblygiad mathemategol; cyflawnodd y bechgyn yn well na merched yn 2012.

Yn 2012, yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth uwchlaw cyfartaleddau’r teulu ond islaw cyfartaleddau Cymru. Mae cyfran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefel ddisgwyliedig yn y tri phwnc yn dangos tuedd o wella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn 50% uchaf yr ysgolion tebyg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf; cyn hyn, roedd perfformiad yr ysgol yn ei gosod yn yr 50% isaf o ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion mwy abl sy’n cyflawni’r lefel uwch (lefel 5) ym mhob un o’r tri phwnc craidd hefyd yn dangos tuedd o welliant dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae’n parhau islaw cyfartaleddau’r teulu a Chymru. Roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel hon mewn mathemateg yn 2012, yn ei rhoi yn yr 50% uchaf o ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mewn Saesneg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yr ysgol yn parhau yn yr 50% isaf.

Mae'r ysgol wedi culhau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Yn 2012, roedd yn llai na'r bwlch yn genedlaethol, neu'n agos ato. Yn 2012, roedd disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi perfformio cystal â disgyblion nad oes hawl ganddynt gael prydau ysgol am ddim yng nghyfnod allweddol 2. Roedd hyn yn welliant pwysig o gymharu â blynyddoedd blaenorol, lle'r oedd y bwlch mewn perfformiad yn fwy yn gyffredinol na'r bwlch yn genedlaethol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Llenwodd tri deg dau o rieni neu ofalwyr yr holiadur. Mae eu lefelau boddhad gerllaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed bron pob un o'r rhieni bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac maent yn hyderus bod eu plant yn ddiogel yno. Cytunant fod eu plentyn wedi cael help i ymgartrefu pan ymunodd â'r ysgol. Dywed bron pob un bod staff yn trin yr holl blant yn deg a gyda pharch. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn annog eu plentyn i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r rhieni o'r farn bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda a deallant beth i'w wneud os dymunant wneud cwyn. Mae'r holl rieni'n cytuno bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da ac mae bron pob un ohonynt o'r farn eu bod yn cael gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn. Mae bron pob un ohonynt o'r farn bod ymddygiad yn dda.

Mae bron pob un o'r rheini o'r farn bod yr addysgu'n dda ac maent yn fodlon bod athrawon yn disgwyl i ddisgyblion wneud eu gorau. Credant fod athrawon yn helpu eu plentyn i aeddfedu ac ymgymryd â chyfrifoldeb ac roedd y rhan fwyaf o rieni a wnaeth ymateb yn dweud bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd. Roedd bron pob un o'r rhieni a ymatebodd yn cytuno bod y gwaith cartref a osodir yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. Roedd pawb a ymatebodd yn hyderus bod eu plentyn yn cael digon o gymorth ychwanegol ar gyfer ei anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un o'r farn bod ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwodd naw deg naw o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yr holiadur. Roedd ymatebion i bron pob cwestiwn uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd eraill yng Nghymru.

Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae bron pob un ohonynt yn cytuno eu bod yn gwybod gyda phwy i siarad os ydynt yn pryderu am rywbeth neu'n gofidio neu'n cael eu gwaith yn anodd. Dywed bron pob un ohonynt bod yr ysgol yn eu helpu i fod yn iach a'i bod yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt fod yn weithgar yn gorfforol.

Mae bron pob un o'r disgyblion o'r farn eu bod yn gwneud yn dda a bod athrawon a staff cymorth yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.  Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod gwaith cartref yn eu helpu i wella'u gwaith yn yr ysgol.  Mae bron pob un ohonynt yn cytuno bod yr holl blant yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mae'r rhan fwyaf ohonynt o'r farn bod plant yn ymddwyn yn dda yn ystod amser egwyl ac amser cinio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Chris Ian Dolby | Arolygydd Tîm |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Justine Elaine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Julie Buckley-Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Huw Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.